OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2961 (Cy.267)

HADAU, CYMRU

Rheoliadau Tatws Hadyd (Ffioedd) (Cymru) (Rhif 2) 2006

Wedi'u gwneud - -	*7 Tachwedd 2006*
Yn dod i rym - -	*16 Tachwedd 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 16(1) ac (1A)(e) o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**).

Yn unol ag adran 16(1) o'r Ddeddf honno mae wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y buddiannau hynny y mae'n ymddangos iddo y bydd y Rheoliadau canlynol yn ymwneud â hwy:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws Hadyd (Ffioedd) (Cymru) (Rhif 2) 2006.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 16 Tachwedd 2006.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Ffioedd

2.—(1) Rhaid i geisydd —

(a) am ardystiad o datws hadyd yn unol â rheoliad 9 o Reoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006(**3**), neu

(b) am awdurdodiad i farchnata tatws hadyd yn unol â rheoliad 8 o'r Rheoliadau hynny,

dalu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch unrhyw un o'i swyddogaethau o dan Reoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006 neu i unrhyw berson a awdurdodir ganddo i gyflawni'r cyfryw swyddogaethau ar ei ran y ffioedd a restrir yn yr Atodlen ynglŷn â'r cyfryw swyddogaethau.

(2) Mae'r ffi a bennir yn yr Atodlen fel y ffi sy'n daladwy am bob swyddogaeth yn ddarostyngedig i unrhyw leiafswm ffi a bennir ar gyfer y swyddogaeth honno.

(**1**) 1964 p.14; diwygiwyd adran 16 gan adran 4(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p.68) a pharagraff 5(1), (2) a (3) o Atodlen 4 iddi, O.S. 1977/1112, ac adran 2 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1986 (p.49); *gweler* adran 38(1) ar gyfer diffiniad o "the Minister".

(**2**) O dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672 cafodd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964, a oedd wedi cael eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978, eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**3**) O.S. 2006/2929 (Cy.264) .

Dirymu

3. Dirymir Rheoliadau Tatws Hadyd (Ffioedd) (Cymru) 2006(**4**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

7 Tachwedd 2006

(**4**) O.S. 2006/519 (Cy. 63).
(**5**) 1998 p.38.